# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

# 5 Hydref 2020

## SL(5)622 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020

### Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 drwy ddynodi Dinas a Sir Caerdydd a Dinas a Sir Abertawe yn ardaloedd diogelu iechyd lleol. Effaith hyn mewn perthynas â'r ardaloedd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwydydd rhag ffurfio aelwydydd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o'r ardal heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan i'r ardal rhag mynd i'r ardal heb esgus rhesymol.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
**Fe'u gwnaed ar:** 25 Medi 2020
**Fe'u gosodwyd ar:** 25 Medi 2020
**Yn dod i rym ar:** 27 Medi 2020

# SL(5)624 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) 2020

## Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 45C(1), adran (3)(c), adran 45F(2) ac adran 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984").

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Prif Reoliadau i ddynodi Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen fel ardaloedd amddiffyn iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol, sef:

- ni chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwydydd rhag ffurfio aelwydydd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o'r ardal heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan i'r ardal rhag mynd i'r ardal heb esgus rhesymol; Nid yw'n esgus rhesymol mynd i ardal i weithio, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
**Fe'u gwnaed ar:** 28 Medi 2020
**Fe'u gosodwyd ar:** 28 Medi 2020
**Yn dod i rym ar:** 28 Medi 2020